WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Cyflawni â Llai – Gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd – Adolygiad Dilynol – **Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful**


Blwyddyn archwilio: 2018-19

Dyddiad cyhoeddi: Rhagfyr 2018

Cyfeirnod y ddogfen: 988A2018-19

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol, na staff Swyddfa Archwilio Cymru, yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb yng nghyswllt unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na gweithiwr arall fel unigolion, nac yng nghyswllt unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Gymraeg. This document is also available in Welsh.

Mae'r tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Ian Phillips, Katherine Simmons, Sara-Jane Byrne ac Adam Marshall dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

# Cynnwys

Mae adnoddau gwasanaethau iechyd yr amgylchedd y Cyngor wedi lleihau, ac ni all ddangos ei fod yn cyflenwi ei holl wasanaethau iechyd yr amgylchedd statudol.


Adroddiad cryno

Adroddiad manwl

Mae adnoddau gwasanaethau iechyd yr amgylchedd y Cyngor wedi lleihau, ac ni all ddangos ei fod yn cyflenwi ei holl wasanaethau iechyd yr amgylchedd statudol. 6

Mae niferoedd staff a chyllideb y gwasanaethau iechyd yr amgylchedd wedi lleihau ers y gwaith archwilio blaenorol yn 2013-14. 6

Mae'r Cyngor yn ystyried ei fod yn bodloni ei rwymedigaethau iechyd yr amgylchedd statudol ond prin yw'r dystiolaeth bod y Cyngor wedi asesu a yw'n bodloni'r rhain 7

Nid yw'r Cyngor yn asesu fel mater o drefn ei berfformiad yn erbyn naill ai rwymedigaethau statudol iechyd yr amgylchedd na'r Safonau Ymarfer, a phrin y mae aelodau'n goruchwylio perfformiad y gwasanaeth 8

Cymysg fu ymateb y Cyngor i argymhellion blaenorol yr Archwilydd Cyffredinol 10

Atodiadau

Atodiad 1 13

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn yr edrychom arno

1 Ym mis Hydref 2014, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol **Cyflawni â llai – yr effaith ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd a dinasyddion** (gweler Atodiad 1 am yr argymhellion o'r adroddiad hwnnw). Cynhaliwyd ein gwaith maes ar gyfer ein hadolygiad diweddaraf rhwng mis Gorffennaf a Medi 2018. Gwnaeth yr adolygiad waith dilynol ar y themâu a'r gwersi a nodir yn yr adroddiad a wnaethom yn 2014. Fel rhan o'n hadolygiad buom hefyd yn ystyried effaith y gostyngiadau yng nghyllid llywodraeth leol ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd y Cyngor ac effeithiolrwydd trefniadau'r Cyngor ar gyfer cyflenwi'r gwasanaethau hynny.

### Pam bod gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn bwysig

2 Mae gan Gynghorau nifer o ddyletswyddau iechyd yr amgylchedd statudol ac mae dinasyddion yn gwerthfawrogi llawer o'r gwasanaethau iechyd yr amgylchedd a ddarperir yn fawr iawn. At hynny, mae gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn effeithio'n uniongyrchol ar iechyd, lles a diogelwch trigolion ac ymwelwyr yng Nghymru.

3 Mae gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn cwmpasu nifer fawr o faterion, megis diogelwch bwyd, rheoli plâu, rheoli cŵn, tai a lleihau achosion ac effeithiau llygredd aer.

### Sut gwnaethom gynnal yr adolygiad

4 Fel sail i'n canfyddiadau, fe wnaethom gyfweld detholiad o swyddogion ac aelodau Cabinet, y mae eu cylch gorchwyl yn cynnwys trefniadau iechyd yr amgylchedd y Cyngor. Fe wnaethom hefyd adolygu dogfennau perthnasol.

### Canfyddiadau cyffredinol

5 Nod ein hadolygiad oedd ceisio ateb y cwestiwn: A yw gwasanaethau iechyd yr amgylchedd y Cyngor yn dal i gyflawni eu rhwymedigaethau statudol â llai o adnoddau?

6 Drwyddi draw, canfuom fod adnoddau gwasanaethau iechyd yr amgylchedd y Cyngor wedi lleihau, ac na all ddangos ei fod yn cyflenwi ei holl wasanaethau iechyd yr amgylchedd statudol.

# Cynigion ar gyfer Gwella

## Arddangosyn 1: cynigion ar gyfer Gwella

Mae’r tabl isod yn cynnwys y cynigion ar gyfer gwella yr ydym wedi’u nodi yn dilyn yr adolygiad hwn.

| Cynigion ar gyfer Gwella | |
| --- | --- |
| **Cynigion ar gyfer Gwella** | |
| P1 | Mae angen i’r Cyngor sicrhau ei hun ei fod yn gallu cyflenwi ei wasanaethau iechyd yr amgylchedd statudol. |
| P2 | Mae angen i’r Cyngor sefydlu gwell peirianwaith i adolygu’r ffordd y caiff ei wasanaethau iechyd yr amgylchedd statudol eu cyflenwi. |

# Adroddiad manwl

## Mae adnoddau gwasanaethau iechyd yr amgylchedd y Cyngor wedi lleihau, ac ni all ddangos ei fod yn cyflenwi ei holl wasanaethau iechyd yr amgylchedd statudol.

### Mae niferoedd staff a chyllideb y gwasanaethau iechyd yr amgylchedd wedi lleihau ers y gwaith archwilio blaenorol yn 2013-14.

I gyrraedd y casgliad hwn canfuom:

7 Fod niferoedd y staff sy'n gweithio yng ngwasanaethau iechyd yr amgylchedd y Cyngor wedi gostwng er 2014. Bu gostyngiad o 5.5 o swyddogion cyfwerth ag amser llawn (FTE), gan gynnwys gostyngiad o oddeutu tri thechnegydd ac 1.5 swyddog Iechyd yr amgylchedd FTE cymwysedig. Mae'r Cyngor yn ddibynnol ar brofiad a gwybodaeth nifer fechan o staff. Mae'r Cyngor yn amlygu yn ei Gofrestr Risgiau Diogelu'r Cyhoedd a Thai fod colli staff profiadol yn un o'r risgiau a bod arno angen cynllunio i liniaru'r risg honno.

8 Ers ein hadolygiad diwethaf yn 2014, mae rhwymedigaethau statudol iechyd yr amgylchedd ychwanegol y mae'n rhaid i'r Cyngor eu bodloni oherwydd Deddf Tai (Cymru) 2014 a Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017. Bydd yr angen i lunio strategaeth toiledau lleol dan Ddeddf 2017 yn heriol i'r Cyngor er bod y Cyngor wedi dweud wrthym ei fod ar y trywydd iawn i gwblhau'r strategaeth. Yn ein hadroddiad, a gyflwynwyd i'r Cyngor ym mis Rhagfyr 2014, daethom i'r casgliad y bydd y Cyngor yn ei chael yn anodd ysgwyddo dyletswyddau statudol newydd sy'n diogelu'r cyhoedd a'r amgylchedd. Erys y pryder hwn.

9 Mae cyllideb gwasanaethau iechyd yr amgylchedd y Cyngor wedi lleihau'n sylweddol er 2013-14. Gwelwyd gostyngiadau sylweddol yn y cyllidebau ar gyfer iechyd a diogelwch, recriwtio hyfforddi a datblygu, rheoli plâu, rheoli cŵn, rheoli llygredd a thai. Mae'r gostyngiadau hyn yn cael eu gwaethygu mewn 'termau real' os rhoddir ystyriaeth i effaith chwyddiant.

10 Er gwaethaf y gostyngiadau yn y gyllideb, bu tanwariant cyson yn erbyn y gyllideb ar gyfer gwasanaethau iechyd yr amgylchedd. Mae hyn yn gyson â'r sefyllfa a welsom yn 2014 ac mae'n amlinellu bod gwasanaethau iechyd yr amgylchedd, fel y rhan fwyaf o wasanaethau'r Cyngor, wedi gorfod canfod arbedion er mwyn helpu'r Cyngor i fantoli ei gyllideb.

11 Dylid ystyried cyllideb gwasanaethau iechyd yr amgylchedd y Cyngor yng nghyd-destun sefyllfa ariannol y Cyngor a'r heriau y mae'n eu hwynebu. Roedd cynllun ariannol tymor canolig diweddaraf y Cyngor, a gyflwynwyd gerbron y Cyngor ym mis Tachwedd 2018, yn dangos diffyg rhagamcanol o £5.6 miliwn yn y gyllideb ar gyfer 2019-20 a £17.3 miliwn ar gyfer y cyfnod 2019-20 i 2021-22. Roedd y diweddariad hwn yn adlewyrchu'r setliad dros dro ar gyfer 2019-20, galwadau ychwanegol

corfforaethol, gostyngiadau yn y gyllideb gorfforaethol a gostyngiadau arfaethedig i ysgolion. Mae adrannau fel y Gwasanaethau Cymdeithasol a Dysgu yn wynebu pwysau aruthrol, ac o'r herwydd mae'r Cyngor, ar gyfer 2018-19, yn gosod yn eu herbyn ar hyn o bryd gyfraniad o Gronfa Wrth Gefn y Gyllideb.

## Mae'r Cyngor yn ystyried ei fod yn bodloni ei holl rwymedigaethau iechyd yr amgylchedd statudol ond prin yw'r dystiolaeth bod y Cyngor wedi asesu a yw'n bodloni'r rhain

I gyrraedd y casgliad hwn canfuom:

12 Mai un o'r argymhellion o adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn 2014 oedd i Gynghorau nodi dyletswyddau statudol ac anstatudol gwasanaethau iechyd yr amgylchedd y cyngor.

13 Yn 2014-15, cynhaliodd y Cyngor ymarferiad cyllidebol a oedd yn cynnwys nodi gwasanaethau iechyd yr amgylchedd gorfodol. Yn fwy diweddar, ym mis Gorffennaf 2017, cynhaliodd y Cyngor ymarferiad i nodi ei wasanaethau gorfodol a dewisol. Roedd hwn hefyd yn cynnwys y cyfrifoldebau hynny sy'n ymwneud ag iechyd yr amgylchedd. Fodd bynnag, ni wnaeth yr ymarferiad ym mis Gorffennaf 2017 werthuso a yw'r Cyngor yn bodloni'r cyfrifoldebau hynny nac i ba safon.

14 Ceir tystiolaeth bod y Cyngor wedi ystyried ei gyfrifoldebau statudol mewn rhai meysydd o'r gwasanaethau iechyd yr amgylchedd, ond nid ar draws ystod lawn cyfrifoldebau a meysydd gwasanaethau.

- un cynllun gwasanaethau yn unig sydd gan y gwasanaeth iechyd yr amgylchedd: cynllun gwasanaethau bwyd. Ceir dogfen gynhwysfawr sy'n datgan yr holl gyfrifoldebau statudol perthnasol.
- mae Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer y Cyngor (Mehefin 2018) yn datgan y camau yr oedd y Cyngor yn eu cymryd yn unol â'i gyfrifoldebau statudol.

15 Roedd y rheini y gwnaethom gyfweld â nhw fel rhan o'n hadolygiad yn hyderus bod y Cyngor yn dal i gyflenwi ei rwymedigaethau statudol (er bod gwasanaethau wedi'u cwtogi i'r lefel ofynnol isaf statudol). Fodd bynnag, gan nad yw'r gwasanaeth yn asesu'n ffurfiol sut nac i ba raddau yr oedd yn bodloni ei rwymedigaethau, nac i ba safon, nid oedd yn gallu darparu tystiolaeth i gefnogi'r farn hon.

16 Yn ein hadroddiad 'Cyflawni â Llai – gwasanaethau iechyd yr amgylchedd' a gyflwynwyd i'r Cyngor ym mis Rhagfyr 2014, dywedom fod y Cyngor yn cyflenwi'r rhan fwyaf o'i wasanaethau iechyd yr amgylchedd i safon sy'n uwch na'r lefelau gofynnol isaf o'u dyfarnu yn erbyn y Safonau Arferion Gorau. Mae'r rhain yn cynnwys yr ystod o gyfrifoldebau iechyd yr amgylchedd statudol. Fodd bynnag, canfu ein hadolygiad yn 2018, er bod gan y Pennaeth Iechyd yr Amgylchedd ran fawr yn y gwaith o adolygu a diweddaru'r Safonau Ymarfer, nid yw'r Cyngor yn asesu a yw'n cyrraedd y Safonau Ymarfer.

## Nid yw'r Cyngor yn asesu fel mater o drefn ei berfformiad yn erbyn naill ai rwymedigaethau statudol iechyd yr amgylchedd na'r Safonau Ymarfer, a phrin y mae aelodau'n goruchwylio perfformiad y gwasanaeth

I gyrraedd y casgliad hwn canfuom:

17 Nad oes trefn ffurfiol i'w chael i ddadansoddi perfformiad yn erbyn rhwymedigaethau statudol gwasanaethau iechyd yr amgylchedd y Cyngor nac yn erbyn y Safonau Ymarfer Iechyd yr Amgylchedd.

18 Cred y Cyngor fod y rhan fwyaf o'i wasanaethau iechyd yr amgylchedd ar y lefel 'ofynnol'[1] yn hytrach na'r lefel 'well' yn erbyn y Safonau Ymarfer. Gan nad yw'r Cyngor yn asesu ei hun yn erbyn y Safonau Ymarfer, nid oedd yn gallu darparu tystiolaeth i gefnogi hyn.

19 Un o'r argymhellion yn ein hadroddiad cenedlaethol yn 2014 oedd nodi, casglu a dadansoddi data ariannol, data ar berfformiad a data ar alw/angen mewn perthynas â gwasanaethau iechyd yr amgylchedd (Argymhelliad 5, Atodiad 1). Mae'r Cyngor yn casglu dangosyddion perfformiad ar gyfer y Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd a Thai (sy'n cynnwys Iechyd yr Amgylchedd), ac maent yn cynnwys Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus perthnasol. Fodd bynnag, dim ond ychydig o'r dangosyddion sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd.

20 Gwnaed yr adroddiad hunanwerthuso diwethaf ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd yn Ionawr 2017, ond mae'n adroddiad cymharol lefel uchel ac ychydig o wybodaeth sydd ynddo am berfformiad y gwasanaethau iechyd yr amgylchedd. Dywedodd Bwrdd Perfformiad y Cyngor y dylai cylch nesaf yr adroddiadau hunanwerthuso gynnwys hunanwerthusiad penodol o'r gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd, er mwyn 'gallu creu darlun clir o'r elfennau gwasanaeth unigol, a chynnig dyfarniadau ar sail gwasanaethau unigol'.

21 Mae Gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd y Cyngor yn cyfrannu at ddau o amcanion llesiant y Cyngor: 'Llesiant Amgylcheddol' a 'Bywyd Gwaith'. Mae'r mesurau allweddol i fonitro cynnydd y Cyngor yn cyflawni'r amcanion hyn wedi'u nodi mewn strategaeth ar ddogfen dudalennau (SOAP). Hyd yma, ni chyflwynwyd adroddiad ar y SOAPs hyn gerbron y Cabinet na'r pwyllgor craffu.

22 Mae Adroddiad Perfformiad Blynyddol y Cyngor yn gwerthuso ei berfformiad yn erbyn ei amcanion allweddol. Roedd ei Adroddiad Perfformiad yn 2016-17 yn cynnwys perfformiad yn erbyn rhai dangosyddion iechyd yr amgylchedd perthnasol. Cyhoeddodd y Cyngor ei Adroddiad Perfformiad 2017-18 ym mis Hydref 2018.


[1] Ceir dwy lefel yn y Safonau Ymarfer, 'gofynnol' a 'gwell'. Mae'r lefel 'ofynnol' yn disgrifio y safon gwasanaeth gofynnol y dylid ei darparu i fodloni rhwymedigaethau awdurdod lleol ar gyfer cyflenwi'r maes hwnnw o'r gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd.

Roedd yr adroddiad yn cyfeirio at ei allyriadau carbon deuocsid o'r ynni a ddefnyddia adeiladau'r Cygnor ond nid at ddangosyddion iechyd yr amgylchedd eraill.

23 Mae perfformiad yn erbyn rhai o'r mesurau iechyd yr amgylchedd allweddol i'w gweld isod

- Fel y gwelir yn Arddangosyn 1 isod, mae nifer y sefydliadau sy'n bodloni'r safonau hylendid bwyd, ac eithrio 2016-17, wedi gwella bob blwyddyn er 2010-11. Fodd bynnag, fe wnaeth perfformiad y Cyngor, o ran canran y sefydliadau bwyd sy'n cyrraedd y safonau hylendid bwyd yn fras, gynyddu bob blwyddyn nes iddo syrthio o 93.49% yn 2016-17 i 92.46% yn 2017-18, islaw'r ffigur cyfartalog ar gyfer Cymru, sef 95.27%.

Arddangosyn 1: safonau hylendid sefydliadau bwyd ym Merthyr Tudful




Mae canran yr eiddo sector preifat gwag y dechreuwyd eu defnyddio unwaith eto yn ystod y flwyddyn oherwydd gweithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol wedi aros yn eithaf sefydlog ar oddeutu 6.5% rhwng 2015-16 a 2017-18.

## Cymysg fu ymateb y Cyngor i argymhellion blaenorol yr Archwilydd Cyffredinol

24 Yn 2014, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol adroddiad 'Cyflawni â llai – yr effaith ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd a dinasyddion'. Gwnaeth chwech o argymhellion, ac roedd pump o'r rheini yn berthnasol i gynghorau (Atodiad 1).

25 Mae'r Cyngor wedi cynhyrchu taenlen sy'n rhoi camau gweithredu yn erbyn y chwech argymhelliad yn adroddiad 2014 yr Archwilydd Cyffredinol. Fodd bynnag, nid yw'n gynllun gweithredu cadarn gan mai manylion cyfyngedig ar geir yn rhannau o'r daenlen am ba gamau a gymerwyd.

26 Ar y pryd, ni chyflwynwyd y daenlen gerbron unrhyw rai o bwyllgorau'r Cyngor. Ni chyflwynwyd adroddiadau'r Archwilydd Cyffredinol gerbron y Pwyllgor Archwilio nes i'r Cyngor gyflwyno'r broses honno ym mis Rhagfyr 2016. Ers hynny, cynhwyswyd ein hargymhellion o'n hadroddiad yn 2014 yng nghynllun gweithredu archwiliadau (AAP) corfforaethol y Cyngor. Mae'r adran archwilio mewnol yn archwilio'r AAP i sicrhau bod y rheolwyr wedi'u diweddaru. Mae'r AAP yn datgan bod pedwar allan o'r pump argymhelliad wedi cael eu gweithredu'n llawn a bod un wedi'i weithredu'n rhannol. Fodd bynnag, canfu ein hadolygiad mai cymysg y bu'r cynnydd yn erbyn yr argymhellion. Mae Tabl 1 yn crynhoi'r cynnydd a wnaeth y Cyngor i roi sylw i'r argymhellion hyn.

Tabl 1: crynodeb o'r cynnydd a wnaeth y Cyngor i roi sylw i argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol, 'Cyflawni â llai: Yr effaith ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd a dinasyddion (Hydref 2014)

| Argymhellion | Sylwebaeth gan Swyddfa Archwilio Cymru |
|---|---|
| A1 Diwygio'r safonau ymarfer gorau er mwyn:<br>• cysoni gwaith ym maes iechyd yr amgylchedd â blaenoriaethau strategol cenedlaethol;<br>• nodi cyfraniad ehangach iechyd yr amgylchedd at gyflawni blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru; a<br>• nodi buddiannau ac effeithiau gwasanaethau iechyd yr amgylchedd o ran diogelu dinasyddion. | Gwnaed hyn gan Benaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor yn asesu ei wasanaethau iechyd yr amgylchedd yn erbyn y Safonau Ymarfer. |
| A2 Rhoi'r sgiliau a'r cymorth sydd eu hangen ar gadeiryddion ac aelodau pwyllgorau | Mae'r Cyngor wedi darparu amrywiol sesiynau hyfforddiant i aelodau mewn ymateb i'r argymhelliad hwn, megis 'Deall a defnyddio data perfformiad' a ddarparwyd gan yr Uned Ddata Llywodraeth Leol. |

| Argymhellion | Sylwebaeth gan Swyddfa Archwilio Cymru |
|---|---|
| craffu i graffu ar berfformiad gwasanaethau, cynlluniau arbedion ac effaith gostyngiadau cyllidebol a'u herio'n effeithiol. | |
| A3 Ymgysylltu'n well â'r trigolion lleol ynghylch cynlluniau i dorri cyllidebau a newid gwasanaethau drwy:<br>• ymgynghori â thrigolion ar newidiadau arfaethedig mewn gwasanaethau;<br>• defnyddio'r canfyddiadau i lywio penderfyniadau;<br>• amlinellu pa wasanaethau a gaiff eu torri a sut y bydd y toriadau hyn yn effeithio ar drigolion; a<br>• nodi cynlluniau i gynyddu taliadau neu newid safonau gwasanaeth. | Dywedom yn ein hadroddiad **Llywodraethu da wrth benderfynu ar newidiadau sylweddol mewn gwasanaethau** (Chwefror 2017) fod y 'Cyngor yn ymgynghori ar newidiadau mewn gwasanaethau lle mae'n ystyried bod hynny'n briodol, ond mae diffyg tryloywder o ran rhai agweddau ar drefniadau llywodraethu yn cyfyngu ar allu rhanddeiliaid i ymgysylltu gyda phrosesau gwneud penderfyniadau'. Mae'r Cyngor yn ymgynghori â'r cyhoedd bob blwyddyn fel rhan o'i broses ymgynghori ar y gyllideb. |
| A4 Gwella effeithlonrwydd a gwerth am arian drwy:<br>• nodi dyletswyddau statudol ac anstatudol gwasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau.<br>• cytuno ar flaenoriaethau iechyd yr amgylchedd ar gyfer y dyfodol a rôl cynghorau wrth gyflawni'r rhain,<br>• pennu 'safon dderbyniol o berfformiad' ar gyfer gwasanaethau iechyd yr amgylchedd (uchaf ac isaf) a rhoi cyhoeddusrwydd iddynt ymhlith dinasyddion.<br>• Gwella effeithlonrwydd a chynnal perfformiad ar y lefel y cytunwyd arni drwy:<br>– gydweithio a/neu integreiddio ag eraill er mwyn lleihau costau a/neu wella ansawdd; | Mae'r Cyngor yn rhoi sylw i rai rhannau o'r argymhelliad hwn. Er enghraifft, mae'n ystyried cydweithredu â chynghorau eraill ar rai agweddau ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd ond, ar ôl trafod, nid aethant ymlaen â'r cynlluniau. Mae'r Cyngor wedi cyflwyno ffioedd am reoli plâu er bod yr incwm a ddaeth i law yn llawer is na'r hyn a ragwelwyd. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor wedi gwneud dim cynnydd o safbwynt rhannau eraill o'r argymhelliad hwn. |

| Argymhellion | Sylwebaeth gan Swyddfa Archwilio Cymru |
|---|---|
| – gosod gwasanaethau ar gontractau allanol lle y gellir eu darparu mewn ffordd fwy cost-effeithiol yn unol â'r safonau y cytunwyd arnynt;<br>– cyflwyno a/neu gynyddu taliadau a chanolbwyntio ar weithgarwch sy'n cynhyrchu incwm;<br>– defnyddio grantiau mewn ffordd strategol er mwyn sicrhau'r effaith a'r elw mwyaf; a<br>– lleihau gweithgareddau er mwyn canolbwyntio ar flaenoriaethau statudol a strategol craidd. | |
| A5 Gwella gwaith cynllunio strategol drwy:<br>• nodi, casglu a dadansoddi data ariannol, data ar berfformiad a data ar alw/angen mewn perthynas â gwasanaethau iechyd yr amgylchedd;<br>• dadansoddi data a gasglwyd er mwyn llywio a deall y gydberthynas rhwng 'cost: budd: effaith' a defnyddio'r wybodaeth hon fel sail i benderfyniadau ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau yn y dyfodol; a<br>• chytuno sut y gellir defnyddio gwybodaeth ddigidol i gynllunio a datblygu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn y dyfodol. | Mae'r Cyngor yn ystyried bod eu hymateb i'r argymhelliad hwn yn barhaus; mae'n ystyried ei fod yn rhan o'r broses gylchol o werthuso a chynllunio'r gwasanaeth. Fodd bynnag, ychydig o dystiolaeth a welsom fod y Cyngor yn cymryd y camau hyn a argymhellwyd, yn benodol, o ran deall y berthynas rhwng 'cost: budd: effaith' ac archwilio sut gallai ddefnyddio gwybodaeth ddigidol i gynllunio a datblygu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd. |

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru (Hydref 2018)

# Atodiad 1

Fel rhan o'i gyfres 'cyflawni â llai' o Astudiaethau Gwella Llywodraeth Leol, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei adroddiad – Cyflawni â llai – yr effaith ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd a dinasyddion, ym mis Hydref 2014. Roedd yn yr adroddiad chwech o argymhellion sydd i'w gweld isod:

| Argymhellion | Partneriaid Cyfrifol |
|---|---|
| A1 Diwygio'r safonau ymarfer gorau er mwyn:<br>• cysoni gwaith ym maes iechyd yr amgylchedd â blaenoriaethau strategol cenedlaethol;<br>• nodi cyfraniad ehangach iechyd yr amgylchedd at gyflawni blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru; a<br>• nodi buddiannau ac effeithiau gwasanaethau iechyd yr amgylchedd o ran diogelu dinasyddion. | Cynghorau, Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd Cymru |
| A2 Rhoi'r sgiliau a'r cymorth sydd eu hangen ar gadeiryddion ac aelodau pwyllgorau craffu i graffu ar berfformiad gwasanaethau, cynlluniau arbedion ac effaith gostyngiadau cyllidebol a'u herio'n effeithiol. | Cynghorau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| A3 Ymgysylltu'n well â'r trigolion lleol ynghylch cynlluniau i dorri cyllidebau a newid gwasanaethau drwy:<br>• ymgynghori â thrigolion ar newidiadau arfaethedig mewn gwasanaethau a<br>• defnyddio'r canfyddiadau i lywio penderfyniadau;<br>• amlinellu pa wasanaethau a gaiff eu torri a sut y bydd y toriadau hyn yn effeithio ar drigolion; a<br>• nodi cynlluniau i gynyddu taliadau neu newid safonau gwasanaeth. | Cynghorau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| A4 Gwella effeithlonrwydd a gwerth am arian drwy:<br>• nodi dyletswyddau statudol ac anstatudol gwasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau.<br>• cytuno ar flaenoriaethau iechyd yr amgylchedd ar gyfer y dyfodol a rôl cynghorau wrth gyflawni'r rhain,<br>• pennu 'safon dderbyniol o berfformiad' ar gyfer gwasanaethau iechyd yr amgylchedd (uchaf ac isaf) a rhoi cyhoeddusrwydd iddynt ymhlith dinasyddion. | Cynghorau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Llywodraeth Cymru |

| Argymhellion | Partneriaid Cyfrifol |
| --- | --- |
| • Gwella effeithlonrwydd a chynnal perfformiad ar y lefel y cytunwyd arni drwy:<br>– gydweithio a/neu integreiddio ag eraill er mwyn lleihau costau a/neu wella ansawdd;<br>– gosod gwasanaethau ar gontractau allanol lle y gellir eu darparu mewn ffordd fwy cost-effeithiol yn unol â'r safonau y cytunwyd arnynt;<br>– cyflwyno a/neu gynyddu taliadau a chanolbwyntio ar weithgarwch sy'n cynhyrchu incwm;<br>– defnyddio grantiau mewn ffordd strategol er mwyn sicrhau'r effaith a'r elw mwyaf; a<br>– lleihau gweithgareddau er mwyn canolbwyntio ar flaenoriaethau statudol a strategol craidd. | |
| A5 Gwella gwaith cynllunio strategol drwy:<br>• nodi, casglu a dadansoddi data ariannol, data ar berfformiad a data ar alw/angen mewn perthynas â gwasanaethau iechyd yr amgylchedd;<br>• dadansoddi data a gasglwyd er mwyn llywio a deall y gydberthynas rhwng 'cost: budd: effaith' a defnyddio'r wybodaeth hon fel sail i benderfyniadau ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau yn y dyfodol; a<br>• chytuno sut y gellir defnyddio gwybodaeth ddigidol i gynllunio a datblygu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn y dyfodol. | Cynghorau |
| A6 Nodi'n glir yr hyn a ddisgwylir gan wasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau o dan ddeddfwriaeth tai ac iechyd newydd a chytuno sut y caiff y dyletswyddau newydd hyn eu cyflawni. | Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru